ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# Memorandwm Cydweithrediad Polisi Dileu Elw

Mae arweinwyr Gwasanaethau Plant yn addo gweithio ar y cyd ac yn dryloyw i reoli'r farchnad leoli allanol, hyrwyddo arferion comisiynu teg a chynaliadwy, a chynnal disgyblaeth ar y cyd ar gostau lleoliadau.

Mae'r Memorandwm Cydweithredu hwn yn rhan o raglen genedlaethol ehangach sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'n ymateb i'r heriau o reoli newid yn y farchnad, diogelu digonolrwydd, a chyflawni diwygio mewn ffordd gydgysylltiedig a chynaliadwy.

## Cyflwyniad

Mae'r Memorandwm Cydweithrediad hwn yn ymrwymiad gan arweinwyr Gwasanaethau Plant ledled Cymru i weithio'n gydweithredol, yn dryloyw ac yn gyson i gyflawni polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal Plant sy'n derbyn Gofal.

Er bod y ddogfen hon yn nodi fframwaith ymarferol, cychwynnol i lywio cydweithio, bydd canllawiau mwy manwl yn dilyn wrth i'r polisi gael ei weithredu. Mae'r Memorandwm hwn wedi'i gadw'n fwriadol fel man cychwyn syml, ymarferol y gellir adeiladu arno. Bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol wrth i'r rhaglen ddatblygu ac yn dilyn digwyddiadau sylweddol yn y sector (er enghraifft, adolygiad 4C).

Rydym yn glir, oni bai bod awdurdodau lleol Cymru yn cydweithredu'n effeithiol, fod yna risg uchel o fod y system yn methu. Ni ellir bodloni gofynion y polisi hwn ar wahân, a gall gweithredoedd un awdurdod gael canlyniadau uniongyrchol i eraill. Y Memorandwm hwn yw'r man cychwyn ar gyfer creu'r mecanweithiau, perthnasoedd ac ymddygiadau ymarferol a fydd yn cefnogi ymateb cynaliadwy ar y cyd.

## Cwmpas

Mae'r MD hwn yn gytundeb gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r polisi o ddileu elw o ofal cymdeithasol plant. Mae'n ategu (ac nid yw'n dyblygu) Maethu Cymru a 4C, sydd â'u rolau a'u llywodraethiant eu hunain.

Mae’r Memorandwm hwn yn berthnasol i:

- Ddatblygiad gwasanaethau preswyl a maethu mewnol
- Dysgu ar y cyd a chydlynu o gylch trosglwyddo neu gau gwasanaethau
- Cynllunio a sefydlogrwydd y gweithlu
- Rhannu data, trosolwg o’r farchnad a llywodraethu’r system

Nid yw’n disodli cyfrifoldebau, dyletswyddau na fframweithiau cenedlaethol cyfredol, ond ei nod yw bod yn sail iddynt a’u cefnogi trwy gytundeb ar y cyd a chydweithrediad.

## Datblygiad Gwasanaethau Preswyl Mewnol

Bydd cyfarwyddwyr yn sicrhau bod eu gwasanaethu’n:

- Rhannu gwybodaeth gynnar ynglŷn â datblygiadau a gynllunnir yn y gwasanaeth preswyl, gan gynnwys agor, cau ac ailffurfio darpariaeth.
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithredu, gan gynnwys modelau cyflenwi ar y cyd, buddsoddiad ar y cyd neu wasanaethau a gomisiynir ar y cyd.
- Alinio datblygiad preswyl mewnol gydag anghenion ehangach y system a sicrhau fod darpariaeth newydd yn cyfrannu at gapasiti, hyblygrwydd ac ansawdd.
- Ymgysylltu mewn gwaith yn y dyfodol i ddatblygu model llywodraethu ar gyfer gweithio ar y cyd a throsolwg o ddarpariaeth gyhoeddus.

## Datblygiad Gwasanaethau Maethu Mewnol

Bydd cyfarwyddwyr yn sicrhau bod eu gwasanaethu’n:

- Rhannu gwybodaeth gynnar ynglŷn â datblygiadau a gynllunnir yn y gwasanaethau maethu, gan gynnwys ymgyrchoedd recriwtio, ehangu neu newidiadau i’r ddarpariaeth gyfredol.

- Ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithredu, fel recriwtio ar y cyd neu gynlluniau maethu rhanbarthol.
- Alinio datblygiad maethu gydag anghenion ehangach y system a sicrhau ei fod yn cefnogi digonolrwydd, sefydlogrwydd ac ansawdd
- Cyfannu at waith yn y dyfodol am lywodraethiant maethu a dulliau a rennir o gefnogi gofalwyr.

## Dysgu ar y Cyd a Chydlynu Trosglwyddiad neu Gau Gwasanaethau

Bydd cyfarwyddwyr yn sicrhau bod eu gwasanaethau'n:

- Rhannu dysgu o drosglwyddiadau blaenorol gwasanaethau er mwyn gwella cynllunio yn y dyfodol ac amharu cyn lleied â phosibl ar blant.
- Cydlynu cau neu drosglwyddo er mwyn osgoi creu pwysau dianghenraid ar awdurdodau eraill.
- Cofnodi gwersi a ddysgwyd a chylchredeg arfer da trwy ADSS Cymru a'r tîm prosiect Dileu Elw.

## Cynllunio a Sefydlogrwydd y Gweithlu

Bydd cyfarwyddwyr yn sicrhau bod eu gwasanaethau'n:

- Rhannu gwybodaeth am heriau gyda'r gweithlu, gan gynnwys swyddi gwag, defnydd o asiantaethau a chadw staff.
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ar y cyd, ymgyrchoedd recriwtio a llwybrau datblygu gyrfaoedd.
- Cyfrannu at ymdrechion cenedlaethol i sefydlogi a chryfhau'r gweithlu gofal cymdeithasol plant.

## Rhannu Data, Trosolwg o'r Farchnad a Llywodraethu'r System

Mae rhannu data mewn ffordd ragweithiol a thryloyw'n egwyddor sylfaenol y MC hwn. Bydd cyfarwyddwyr yn sicrhau bod ei gwasanaethau'n:

- Cyfnewid gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd i ddatblygu dealltwriaeth genedlaethol o angen, capasiti, costau a risgiau.
- Defnyddio data a rennir fel sail cyd-gynllunio, arfer eithriadau cyson a rheoli'r farchnad.
- Cytuno rhythm adrodd syml a lleiafswm gofynion gwybodaeth (i'w cadarnhau trwy drefniadau gweithredu).
- Caniatáu i Faethu Cymru a 4C rannu data cyflenwad a galw lefel uchel maen nhw eisoes yn ei gasglu ar ran awdurdodau lleol. Mae hyn yn ymwneud â gwybodaeth cydgasgledig am y defnydd o leoliadau maethu a phreswyl. Nid yw'n cynnwys unrhyw ddata personol neu ar lefel achos ac felly nid oes pryderon o ran diogelu data.

## Mynegi Pryderon

Os yw Cyfarwyddwr yn credu fod camau yn rhywle arall yn anghyson â'r Memorandwm hwn ac y gallai beryglu tanseilio sefydlogrwydd y system, dylid mynegi pryderon yn uniongyrchol rhwng Penaethiaid Gwasanaeth i gychwyn.

Os na cheir datrysiad, dylai Cyfarwyddwyr ymgysylltu'n uniongyrchol.  Os nad oes modd datrys wedyn, yna gellir dwysau'r mater trwy'r tîm Dileu Elw a thrwy strwythurau arweinyddiaeth presennol ADSS Cymru. Pan fo problemau'n ymwneud ag ymgysylltiad partneriaid (er enghraifft, byrddau iechyd) mae'r un broses yn berthnasol.

## Ymrwymiadau Craidd

Trwy lofnodi'r Memorandwm hwn, mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau y byddant nhw'n sicrhau bod eu gwasanaethau'n:

1. Gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd dryloyw ym mhob maes sy'n berthnasol ar gyfer cyflawni'r polisi Dileu Elw.
2. Rhannu cynlluniau strategol a chymryd rhan mewn trafodaeth agored am risgiau, blaenoriaethau ac amserlenni.
3. Osgoi camau unochrog a allai danseilio amcanion a rennir neu ansefydlogi'r system.
4. Cynnal prosesau mewnol clir i gefnogi penderfyniadau cyson, wedi eu cofnodi.
5. Rhannu data a gwybodaeth gyda'r tîm Dileu Elw a'i gilydd, er mwyn cefnogi cyd-ddealltwriaeth a chynllunio.
6. Cymryd rhan mewn trefniadau gweithredu ac adrodd y cytunwyd arnynt.
7. Cyfrannu at ddatblygiad o offer a rennir, cyfarwyddyd, modelau llywodraethu ac adnoddau dysgu.

Mae'r ymrwymiadau yma'n adlewyrchu camau y gall Cyfarwyddwyr eu goruchwylio o fewn eu disgresiwn proffesiynol a'u meysydd o reolaeth weithredol. Nid ydyn nhw'n creu rhwymedigaethau cyfreithiol neu ariannol newydd i gynghorau.

## Cyfeiriad y Daith

Yn ogystal â'r ymrwymiadau yma, mae Cyfarwyddwyr hefyd yn cyd-gymeradwyo cyfres o uchelgeisiau sy'n cynrychioli cyfeiriad y maen nhw'n dymuno ar gyfer y daith. Mae'r rhain yn feysydd ble bydd cynnydd pellach yn gofyn am benderfyniadau gan gynghorau llawn, arweinwyr, swyddogion Adran 151 neu Lywodraeth Cymru. Does dim gorfodaeth ohonyn nhw yn y MC yma, ond maen nhw'n arwydd o flaenoriaethau a rennir ar gyfer datblygiad pellach:

- Ymagweddau cenedlaethol tuag at gefnogaeth gofal maeth, fel polisïau "dim niwed" neu gymhellion treth y cyngor.
- Ymchwilio i brotocolau rhannu costau mewn cyfrannau teg ar gyfer lleoliadau preswyl cost uchel.
- Datblygu modelau llywodraethiant at gyfer cyd-oruchwyliaeth o ddarpariaeth gyhoeddus.
- Sicrhau ymgysylltiad cyson a llawn gan bob un o'r 22 awdurdod a phartneriaid iechyd.
- Goleuo diwygiadau rheoleiddio neu i oruchwyliaeth y farchnad yn y dyfodol er mwyn sefydlogi darpariaeth a gwella ansawdd.

## Llywodraethu

Bydd cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am weithredu'n lleol. Bydd pob Cyfarwyddwr yn sicrhau bod eu timau arweinyddiaeth Gwasanaethau Plant yn cael eu briffio ar y Memorandwm ac yn adlewyrchu ei ddisgwyliadau yn eu gwaith.

Bydd y tîm prosiect Dileu Elw cenedlaethol yn darparu cymorth cydlynu ac yn gweithio gydag ADSS Cymru a rhwydweithiau perthnasol i gasglu gwybodaeth, nodi risgiau, a hwyluso cyd-dynnu ar draws awdurdodau lleol.

Bydd fforwm gweithredu gyda chynrychiolaeth ranbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu cynnydd, rhannu dysgu, ac amlygu rhwystrau ar gyfer datrys. Bydd diweddariadau cryno yn cael eu rhannu gyda'r holl lofnodwyr.

Rydyn ni sydd wedi llofnodi isod, yn cefnogi ac yn ymrwymo i delerau'r Memorandwm Cydweithrediad hwn.

| Enw'r Awdurdod Lleol | Enw'r Sawl sy'n Llofnodi | Llofnod |
|---|---|---|
| Ynys Môn | Fôn Roberts | |
| Blaenau Gwent | Luisa Munro Morris | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Claire Marchant | |
| Caerffili | Robert Hartshorn | |
| Caerdydd | Sarah McGill | |
| Sir Gaerfyrddin | Darren Mutter | |
| Ceredigion | Audrey Somerton Edwards | |
| Conwy | Jenny Williams | |
| Sir Ddinbych | Nicola Stubbins | |
| Sir Fflint | Craig MacLeod | |
| Gwynedd | Dylan Owen | |

| | | |
|---|---|---|
| Merthyr Tudful | Lisa Curtis Jones | |
| Sir Fynwy | Jane Rogers | |
| Castell-nedd Port Talbot | Andrew Jarrett | |
| Casnewydd | Tanya Evans | |
| Sir Benfro | Michael Gray | |
| Powys | Nina Davies | |
| Rhondda Cynon Taf | Neil Elliott | |
| Abertawe | David Howes | |
| Torfaen | Jason O'Brien | |
| Bro Morgannwg | Lance Carver | |
| Wrecsam | Rhian Thomas | |